AGGCC CSSIW

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Llandogo Early Years
# Llandogo Millennium Hall
# Llaneuddogwy
# NP25 4TJ

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2015**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella a/neu enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau a/neu enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol, sef:
www.estyn.llyw.cymru
www.cssiw.org.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/02/2016**

## Ynglŷn â'r lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Llandogo Early Years |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Unigolyn Cofrestredig/Unigolion Cofrestredig | Rachel Davies a Lucy Jane Unsworth |
| Unigolyn Cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Unigolyn sydd â gofal | Rachel Davies (dydd Llun – dydd Iau) a Lucy Jane Unsworth (dydd Gwener) |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg | 20 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun a dydd Mawrth, 9.00am tan 3.00pm a dydd Mercher i ddydd Gwener, 9.00am tan 12.00 yn ystod y tymor yn unig |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | Rhagfyr 2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2011 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 8 a 9 Rhagfyr 2015 |
| Gwybodaeth Ychwanegol | |

## Crynodeb o'r Adroddiad

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Rhagorol |
| Dysgu | Rhagorol |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu | Rhagorol |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Rhagorol |

### Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod plant yn dod yn fwy annibynnol yn ystod amser byrbryd dyddiol

A2 Cadw cofnodion cywir o arferion glanhau

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn creu cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| **Lles** | Rhagorol |
|---|---|

Mae bron pob un o'r plant yn teimlo'n ddiogel a saff. Mae ganddynt berthynas gynnes a pharchus â'i gilydd a gydag ymarferwyr, ac maent yn hapus ac wedi ymgynefino yn y lleoliad. Mae chwarae'r plant yn hunangyfeiriedig ac yn llifo'n rhydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau gwybodus ac yn cymryd rheolaeth o'u dysgu trwy ddewis pryd a ble maent yn gweithio, a gyda phwy. Mae bron pob un o'r plant yn cyfrannu'n rheolaidd at gynllunio themâu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cyfraniadau rhagorol at ansawdd yr adolygiad gofal blynyddol ar gyfer y lleoliad, gan fynegi'r hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi am eu profiadau yn y lleoliad. Er enghraifft, mynegodd y plant eu bod yn hoffi gweithgaredd y gornel gartref, a gofyn am gaffi a wigwam i chwarae ynddynt. O ganlyniad, mae'r naill a'r llall yn rhan o ddarpariaeth y lleoliad.

Mae bron pob un o'r plant yn canolbwyntio ac yn ymgymryd â thasgau am gyfnod sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhannu, cymryd eu tro, cyd-chwarae ac yn dangos pryder at eu cyfoedion. Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn eithriadol o dda ac yn gofalu am ei gilydd. Maent yn aros yn amyneddgar i blant eraill gwblhau tasgau cyn cymryd eu tro. Maent yn awyddus i ddangos i'w ffrindiau yr hyn y maent wedi ei adeiladu, tynnu ei lun neu ddod o hyd iddo, er enghraifft wrth hela am wyau dinosor.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas ac maent yn mwynhau eu dysgu. Maent yn ateb cwestiynau'n hyderus ac yn gwneud sylwadau synhwyrol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb ac yn hapus yn eu hamgylchedd dysgu. Mae gan bron bob un o'r plant fedrau hunangymorth da ac maent yn gwisgo'u hunain gydag ymyrraeth gyfyngedig gan oedolion.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau gwybodus am eu byrbryd a'u diodydd ganol bore. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau plicio'r ffrwythau eu hunain, ac mae rhai ohonynt yn tywallt eu diodydd o jygiau bach i mewn i'w cwpanau. Mae llawer o blant yn dychwelyd eu platiau a'u cwpanau brwnt i'r gegin, ond mae angen ychydig o anogaeth gan ymarferwyr arnynt i wneud hynny. Mae hyn yn datblygu medrau hunangymorth, annibyniaeth a hunan-barch plant yn llwyddiannus.

| **Dysgu (yn berthnasol i blant sy'n cael eu hariannu yn unig)** | Rhagorol |
|---|---|

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd sylweddol yn holl feysydd y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol yn effeithiol i wneud synnwyr o brofiadau newydd a datrys problemau. Er enghraifft, wrth ymchwilio i briodoleddau rhew, maent yn siarad yn wybodus am y modd y gallant gyflymu'r broses doddi trwy ei gynhesu yn yr haul neu yn eu dwylo. Mae llawer o blant yn datblygu'r medrau hanfodol i fod yn ddysgwyr annibynnol yn llwyddiannus.

Mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o blant yn dda. Mae gan lawer o blant mwy abl fedrau llythrennedd cryf iawn. Mae bron pob un o'r plant yn eithriadol o hyderus wrth gyfathrebu â'i gilydd a gydag oedolion, ac maent yn siarad yn synhwyrol am bethau y maent wedi eu creu neu'u gwneud.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n gydweithredol â'u cyfoedion a gydag ymarferwyr wrth greu mapiau meddwl cynhwysfawr i benderfynu sut i ddatblygu ardaloedd chwarae, fel y caffi a'r tir dinosoriaid. Wrth adeiladu gwrthrychau neu weithio yn y caffi, mae bron pob un o'r plant yn rhannu adnoddau ac yn cymryd eu tro'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno â chaneuon a rhigymau yn gysylltiedig â thestun yn Gymraeg a Saesneg ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn chwarae sain a geiriau. Er enghraifft, mae bron pob un o'r plant yn mwynhau canu am ddyddiau'r wythnos a'r tywydd ac yn symud o un iaith i'r llall yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn bwrpasol am brofiadau dychmygus ac yn defnyddio ystod eang o eirfa i greu rhediad stori. Er enghraifft, wrth hela am wyau dinosor wedi'u rhewi, mae llawer ohonynt yn creu eu senarios eu hunain ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o ddilyniant, plot a chymeriadau.

Mae gan lawer o blant ddealltwriaeth addas o sut i ddal ysgrifbinnau a phensiliau, a dangosant reolaeth effeithiol wrth greu marciau. Mae llawer ohonynt yn deall swyddogaeth ysgrifennu. Maent yn creu marc ar gyfer eu henw ar bapur yn ystod cofrestru ac yn ysgrifennu archebion bwyd yn y caffi yn ystod chwarae rôl. Mae'r rhan fwyaf o blant yn adnabod eu henwau, ac mae rhai ohonynt yn ysgrifennu eu henw gan ddefnyddio priflythyren yn gywir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos diddordeb da mewn llyfrau ac yn siarad yn frwdfrydig am eu hoff storïau a chymeriadau. Mae gan y rhan fwyaf o blant ddealltwriaeth dda iawn o sut i ddal llyfrau'r ffordd gywir i fyny ac yn troi'r tudalennau'n gywir.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o blant yn dda. Mae bron pob un o'r plant yn cyfrif i ddeg yn y ddwy iaith, ac mae llawer ohonynt yn cyfrif i ddau ddeg a thu hwnt heb gymorth. Mae tua hanner y plant yn adnabod gwerth darnau arian ac yn sicrhau bod cwsmeriaid yn defnyddio'r darnau arian cywir wrth dalu am eitemau yn y caffi. Mae llawer ohonynt yn adnabod ac yn enwi siapiau dau ddimensiwn syml y maent yn eu gweld yn y pentref pan fyddant yn mynd am dro neu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ardal goedwig. Mae rhai plant yn dechrau defnyddio mapiau'n gywir yn yr ardal goedwig i nodi lleoliadau fel y cylch boncyffion a meini mawr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd eithriadol o dda yn eu gallu i siarad Cymraeg, ac maent yn defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn naturiol wrth chwarae. Mae llawer o blant yn disgrifio'r tywydd yn Gymraeg ac yn aml yn cyfathrebu ag ymarferwyr yn ystod amser byrbryd trwy ofyn am wahanol eitemau a rhoi gwybod iddynt yn Gymraeg eu bod wedi gorffen.

Mae mwyafrif y plant yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadur i dynnu lluniau syml. Mae rhai ohonynt yn dethol offer ac yn dewis gwahanol liwiau a thrwch brwsys yn gywir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio offer fel camerâu, tortshis, cofrestr arian a cheir rheoli o bell yn annibynnol wrth chwarae.

Mae gan bron bob un o'r plant fedrau corfforol datblygedig a dangosant gydlyniad a rheolaeth dda wrth ddefnyddio offer bach fel sisyrnau a chyfarpar coginio.

| **Gofal a datblygiad** | Da |
|---|---|

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a chefnogol. Mae pob ymarferwr yn adnabod y plant yn dda, yn eu trin â pharch ac yn gwerthfawrogi eu hawliau, eu safbwyntiau a'u barn. Mae ymarferwyr a phlant yn dangos parch at ei gilydd, ac mae plant yn teimlo'n gyfforddus i ofyn i staff am gymorth pan fydd angen. Mae cwrteisi a moesau da yn rhinweddau amlwg yn y lleoliad, ac mae pob aelod o staff yn eu meithrin bob dydd.

Mae gan y lleoliad ddarpariaeth dda ar gyfer iechyd a lles plant, ac mae ganddo ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau priodol sy'n darparu gwybodaeth glir ac addas ar gyfer staff a rhieni. Mae ymarferwyr yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol, yn unol â'r polisïau hyn. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gadw'r holl randdeiliaid ac ymwelwyr yn ddiogel. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Trwy arferion dyddiol cynlluniedig, mae ymarferwyr yn annog plant yn rheolaidd i fwyta byrbrydau ac yfed diodydd iach ac yn darparu cyfleoedd gwerth chweil iddynt wneud ymarfer corff a chwarae'r tu allan. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd ffordd iach a chytbwys o fyw. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn hyrwyddo annibyniaeth plant yn ystod amser byrbryd yn ddigon cyson.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn chwarae a dysgu mewn amgylchedd ysgogol a diogel. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o gynaliadwyedd, ffyrdd iach o fyw a diogelwch yn dda. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o fentrau cenedlaethol i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o ystod o ddulliau iechyd a diogelwch pwysig ac arferion gwerthfawr ar gyfer bywyd.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn fodelau rôl ymddygiad eithriadol o dda, ac maent yn hyrwyddo ac yn annog ymddygiad cadarnhaol yn gyson trwy gydol y sesiynau. Maent yn deg a chyson yn eu defnydd o wobrau a chosbau, ac mae bron pob un o'r plant yn ymwybodol o reolau'r lleoliad. Mae pob un o'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau'n dda iawn ac yn sicrhau bod pob un o'r plant yn ymgysylltu'n drylwyr â'u gwaith.

Mae ymarferwyr yn herio eu harfer eu hunain yn rheolaidd a llwyddiannus. Maent yn ymatebol i'r ffordd y mae gwahanol blant yn dysgu ac yn addasu eu dulliau i fodloni anghenion unigolion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymddygiad plant, ac mae'n gryfder yn y lleoliad.

Ceir systemau addas i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol, ac mae ymarferwyr yn manteisio ar gymorth gan wasanaethau arbenigol pan fydd angen. Maent yn nodi plant sydd ag anawsterau yn gynnar ac yn cynllunio gweithgareddau addas sy'n bodloni eu hanghenion yn dda. Pan fydd angen, mae'r lleoliad yn creu cynlluniau addysg unigol cynhwysfawr ar gyfer plant sy'n cael cymorth ychwanegol.

Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd trwy ymgynghori â rhieni. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n bwrpasol hefyd i nodi a bodloni anghenion plant mwy abl a thalentog.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau sefydledig ac effeithiol gyda'r ysgol gynradd leol. Maent yn cynllunio digwyddiadau ar y cyd ac yn trefnu cyfleoedd rheolaidd i'r plant ymweld â'r dosbarth derbyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau pontio. Mae'r trefniadau hyn yn paratoi'r plant yn dda iawn ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg.

| **Addysgu ac asesu (yn berthnasol i blant sy'n cael eu hariannu yn unig)** | Da |
|---|---|

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eithriadol o dda o brofiadau cyffrous a chynhwysfawr ar gyfer plant. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel, ac maent yn cynllunio gweithgareddau ysgogol a heriol ym mhob maes dysgu. Mae'r cynllunio yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol plant, gan eu galluogi i wneud cynnydd da iawn.

Mae pob ymarferwr yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws pob maes dysgu. Mae'r ymarferwyr yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth o ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac yn cynllunio gweithgareddau'n ofalus i sicrhau parhad a dilyniant.

Mae'r lleoliad yn defnyddio system olrhain gynhwysfawr yn effeithiol iawn i olrhain medrau plant ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae ymarferwyr yn asesu plant yn rheolaidd ac yn cofnodi eu harsylwadau'n systematig. Mae'r system yn drylwyr ac yn galluogi ymarferwyr i nodi'r medrau y mae angen i blant eu datblygu. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol iawn i lywio cynllunio wythnosol. O ganlyniad, mae staff yn gwybod cyfnodau datblygu'r plant yn dda iawn ac yn cynllunio gweithgareddau ar wahanol lefelau i fodloni anghenion a diddordebau pob plentyn unigol. Mae hyn yn gryfder rhagorol yn y lleoliad. Caiff rhieni wybodaeth gynhwysfawr, reolaidd am ddatblygiad eu plentyn.

Mae'r lleoliad yn darparu llawer o gyfleoedd rhagorol i ddatblygu annibyniaeth plant. Mae ymarferwyr yn darparu llawer o gyfleoedd gwerth chweil sy'n galluogi plant i wneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain. Caiff plant eu hannog i drafod eu diddordebau trwy sesiwn casglu syniadau a gweithgareddau mapio'r meddwl bob hanner tymor. Cânt eu hannog i wneud dewisiadau i ddatblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus mewn ystod eang o weithgareddau fel coginio, chwarae rôl a garddio.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd hynod ddychmygus i blant ddatrys problemau ac maent yn fedrus iawn yn datblygu meddyliau ymholgar. Maent yn gofyn cwestiynau heriol ac yn galluogi plant i ymchwilio a chanfod pethau drostynt eu hunain. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu synnwyr da o syfrdan a rhyfeddod trwy brofiadau gwerth chweil fel tyfu planhigion a blodau yn yr ardd gymunedol. Maent hefyd yn mynd ar deithiau natur ysgogol yn lleoliadau'r goedwig ac yn dathlu digwyddiadau arbennig fel yr 'Ugly Bug Ball', Dydd Santes Dwynwen, dawnsio bedwen Fai a Dydd y Cofio.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn eithriadol o dda ac yn hyrwyddo datblygiad corfforol y plant yn dda iawn. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r ardal goedwig i ddarparu cyfleoedd rheolaidd a rhagorol i'r plant ymchwilio a gwneud synnwyr o wrthrychau naturiol newydd yn y byd o'u cwmpas. Mae ymarferwyr yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu medrau penodol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau plant. Er enghraifft, maent yn darparu ryseitiau dychmygus i blant greu 'cawl dail' neu 'ginio mwdlyd' sy'n gofyn iddynt gasglu a chyfrif nifer gywir y dail a'r brigau. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio mapiau i ganfod eu ffordd o amgylch yr ardal goedwig. Mae llawer o blant yn cyfeirio'n hyderus at leoliadau ar y mapiau, ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus i ganfod eu ffordd o gwmpas y goedwig. Mae'r gweithgareddau cynlluniedig hyn yn ysgogi dychymyg y plant ac yn amlhau eu profiadau synhwyraidd yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg plant yn dda iawn. Mae cynllunio gofalus yn sicrhau bod pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o waelodlin isel iawn. Mae'r lleoliad yn defnyddio caneuon, rhigymau a gweithgareddau cynlluniedig yn llwyddiannus i gyflwyno a datblygu patrymau a geirfa Gymraeg yn effeithiol. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac yn datblygu agweddau plant tuag at y Gymraeg yn gadarnhaol.

Mae'r lleoliad yn darparu ymweliadau addysgol gwerth chweil trwy gydol y flwyddyn i blant ddysgu am hanes a diwylliant Cymru. Maent yn mwynhau bwyta bwydydd o Gymru, yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn ymweld â'r gymuned leol ac Abaty Tyndyrn. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddatblygu dealltwriaeth dda o oddefgarwch a pharch at bob diwylliant a chrefydd hefyd. Maent yn siarad yn frwdfrydig am Diwali a gwaith arall y maent wedi'i wneud yn y maes hwn.

| **Yr amgylchedd** | Da |
|---|---|

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel a saff. Mae asesiadau risg yn drylwyr ac yn cael eu cynnal ar gyfer y tu mewn a'r amgylchedd dysgu awyr agored fel ei gilydd. Caiff y rhain eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae ymarferwyr yn rhoi rhagofalon diogelwch cynhwysfawr ar waith, fel cloi drysau, gatiau i'r ardal chwarae y tu allan a chyfrif pennau'r plant yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gwybod ble mae plant a'u bod yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda yn ystod gweithgareddau dan do ac awyr agored.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr amgylchedd yn gynnes, yn ddeniadol ac yn addas i blant chwarae a dysgu. Mae ymarferwyr yn ymfalchïo mewn arddangos gwaith y plant. Mae'r plant yn cymryd rhan weithredol mewn paratoi'r arddangosfeydd ac fe wnaethant fwynhau rhoi eu pants papur wedi'u haddurno ar y Siôn Corn mawr yn y brif neuadd. Mae lleoliad adnoddau yn y neuadd yn galluogi plant i gael lle priodol i ymgymryd yn rhwydd yn eu chwarae gyda'u cyfoedion a'u hymarferwyr. Mae'r amgylchedd yn hyrwyddo medrau hunangymorth plant. Er enghraifft, mae ffedogau wedi eu lleoli'n agos at y byrddau peintio, ac mae bron pob un o'r plant yn defnyddio'r rhain yn annibynnol. Fodd bynnag, ni chaiff potiau paent eu llenwi â phaent yn rheolaidd, ac mae hyn yn cyfyngu ar allu plant i ddewis gwahanol liwiau ar gyfer eu gwaith celf.

Mae'r prif doiledau a chyfleusterau golchi dwylo wedi eu lleoli y tu allan i'r brif neuadd.  O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi buddsoddi mewn gorsaf symudol i olchi dwylo er mwyn i blant allu golchi eu dwylo ar ôl gweithgareddau sy'n creu llanastr.

Gall pob un o'r plant fanteisio ar ystod addas o deganau ac adnoddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored.  Mae bron pob un o'r adnoddau hyn yn lân, yn cael eu cynnal yn dda ac yn addas at eu diben.  Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn cadw cofnodion cywir o arferion glanhau.  Caiff yr holl offer ei storio'n addas yn y neuadd gan sicrhau bod plant yn gallu defnyddio'r rhain yn annibynnol.  Mae gan y lleoliad gyflenwadau digonol i sicrhau bod pob plentyn yn cael defnydd, dewis ac amrywiaeth gyfartal o deganau ac adnoddau.

| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | Rhagorol |
|---|---|

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gref iawn, y mae'n ei rhannu'n effeithiol â phob un o'r rhanddeiliaid.  Mae'n darparu cyfeiriad strategol, cadarn sy'n canolbwyntio'n glir ar les a safonau plant.  Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn rhoi disgrifiad cywir o waith y lleoliad ac fe gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd pan fydd newidiadau'n digwydd.  Mae arweinydd y lleoliad yn cynnwys yr holl ymarferwyr i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau perthnasol a'r holl safonau gofynnol cenedlaethol. Mae hyn yn hynod effeithiol o ran hyrwyddo ethos tîm cryf.

Mae amgylchedd cyfeillgar, gofalgar a chroesawgar iawn yn y lleoliad lle mae pob un o'r plant yn teimlo'n ddiogel a saff.  Mae pob un o'r rhanddeiliaid yn dangos balchder amlwg yn eu gwaith ac yn dangos gofal a pharch at ei gilydd.  Mae gan y lleoliad gyflenwad llawn o staff ymroddgar ac mae ganddo brosesau effeithiol ar gyfer eu recriwtio a'u defnyddio.  Mae gan ymarferwyr brofiadau ac arbenigedd cynhwysfawr ac maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol i fodloni anghenion plant. Mae'r arweinydd, trwy gyfarfodydd gwerthuso rheolaidd, yn sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u bod yn cynllunio profiadau cwricwlwm bywiog a chyffrous ar gyfer y plant yn gyson.  Mae gan bob un o'r ymarferwyr ddisgrifiadau swydd cyfoes sy'n gwneud eu rolau'n glir.

Mae dull trylwyr y lleoliad ar gyfer hunanarfarnu a gwelliant yn eithriadol o dda. Mae'r arweinydd yn herio ymarferwyr yn rheolaidd i arfarnu perfformiad y lleoliad, ac mae wedi sefydlu diwylliant o hunanarfarnu cadarn a gonest y mae pob ymarferwr yn cyfrannu ato.  Mae hi wedi sefydlu dull trylwyr a chydlynus o hunanarfarnu sy'n gwneud defnydd eithriadol o dda o dystiolaeth uniongyrchol o addysgu a dysgu. Creffir yn rheolaidd ar ddeilliannau o waith monitro'r arweinydd yn ystod cyfarfodydd staff.  Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth glir i bob aelod o staff o gryfderau a gwendidau'r lleoliad ac yn eu galluogi i gynllunio'n strategol ar gyfer gwella.  Mae'r lleoliad yn casglu barn plant, rhieni a rhanddeiliaid yn effeithiol iawn, yn dadansoddi canlyniadau ac yn gweithredu yn unol â deilliannau yn ofalus.  Mae'r prosesau hyn wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â chynllun gwella'r lleoliad.  Mae'r ddogfen hon yn gryno ac yn cynnwys ffocws clir, ac mae'n cynnwys targedau dyheadol ar gyfer gwella a meini prawf llwyddiant mesuradwy.  Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, yn enwedig o ran cynllunio ac asesu.

Mae'r lleoliad wedi datblygu partneriaeth helaeth â rhieni a gofalwyr, sy'n gwerthfawrogi'r ffaith y gallant siarad ag ymarferwyr yn rhwydd a thrafod unrhyw

faterion sy'n effeithio ar eu plentyn. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'i leoliad drws nesaf i'r ysgol gynradd leol i wella dysgu'r plant. Mae'r plant hŷn yn ymweld â dosbarth derbyn yr ysgol yn rheolaidd i ymgyfarwyddo â'r adeilad, y staff a'r amgylchoedd. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r lleoliad yn rhan amlwg iawn o'r gymuned. Caiff profiadau'r plant eu cyfoethogi trwy deithiau cerdded rheolaidd yn y pentref ac ymweliadau â'r eglwys, y siop leol a'r parc. Mae partneriaeth hynod lwyddiannus gyda Chymdeithas Cynnyrch y Pentref yn galluogi'r plant i dyfu llysiau yng ngardd y pentref. Mae'r bartneriaeth hon yn cyfoethogi profiadau dysgu plant, yn ogystal â'u hymwybyddiaeth o fwyta'n iach.

## Atodiad 1

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dynodi ddim yn berthnasol.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 15 | 14<br>93%<br>- | 1<br>7%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| My child likes this setting. | 14 | 11<br>79%<br>- | 3<br>21%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 15 | 13<br>87%<br>- | 2<br>13%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| My child is making good progress at the setting. | 15 | 12<br>80%<br>- | 3<br>20%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| Children behave well in the setting. | 15 | 11<br>73%<br>- | 4<br>27%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| Teaching is good. | 15 | 12<br>80%<br>- | 3<br>20%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 14 | 13<br>93%<br>- | 1<br>7%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 12<br>80%<br>- | 3<br>20%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at the setting. | 15 | 13<br>87%<br>- | 2<br>13%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 15 | 11<br>73%<br>- | 4<br>27%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 11<br>73%<br>- | 4<br>27%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 15 | 13<br>87%<br>- | 2<br>13%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 14 | 6<br>43%<br>- | 7<br>50%<br>- | 1<br>7%<br>- | 0<br>0%<br>- | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| My child is well prepared for moving on to school. | 13 | 8<br>62%<br>- | 5<br>38%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 13<br>87%<br>- | 2<br>13%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The setting is well run. | 15 | 14<br>93%<br>- | 1<br>7%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |

## Atodiad 2

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn a gwefan AGGCC ( www.estyn.llyw.cymru) (www.cssiw.org.uk)

## Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae'r term hwn yn cwmpasu ystod eang iawn o anghenion. Rydym yn defnyddio'r term anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion heblaw anghenion y rhan fwyaf o blant eraill yn y lleoliad, am nifer o resymau gwahanol. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>A1 datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>A2 medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>A3 datblygiad mathemategol<br>A4 datblygu'r Gymraeg<br>A5 gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>A6 datblygiad corfforol<br>A7 datblygiad creadigol |
| **Cyngor Gofal Cymru** | Dyma yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Y cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir fel ei gilydd. |
| **Dechrau'n Deg** | Gwasanaethau sy'n cyflwyno gofal plant rhan-amser, am ddim ar gyfer plant dwy oed cymwys i roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd a'u paratoi ar gyfer yr ysgol. Maent hefyd yn darparu lefelau cynyddol o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007. |
| **Lleoliadau nas cynhelir a ariennir** | Lleoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Maent yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat ac ysgolion annibynnol. |
| **Unigolyn allweddol neu system gweithwyr allweddol** | Ymarferwr sy'n cael ei neilltuo ar gyfer pob plentyn yw hwn/hon fel bod unigolyn cyfarwydd, y gall y plentyn ymddiried ynddo, ar gael iddo fel ei fod yn teimlo'n ddiogel a chyfforddus. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol |

| | |
|---|---|
| | ac yn siarad â rhieni yn rheolaidd. |
| **Arweinwyr** | Gall hyn gynnwys yr Unigolyn Cofrestredig, Unigolyn Cyfrifol neu Unigolyn sydd â Gofal<br><br>• Unigolyn cofrestredig – yr unigolyn sydd wedi'i gofrestru gan AGGCC i ddarparu'r gwasanaeth. Gallai hwn fod yn unigolyn neu'n sefydliad<br><br>• Unigolyn cyfrifol – lle mae'r unigolyn cofrestredig yn sefydliad, dyma'r unigolyn sy'n cael ei enwebu gan y sefydliad hwnnw i weithredu ar eu rhan<br><br>• Unigolyn sydd â gofal – yr unigolyn sy'n cael ei benodi gan yr unigolyn cofrestredig i fod yng ngofal y gwasanaeth o ddydd i ddydd |
| **Ymarferwyr** | Pawb sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant mewn lleoliad. |
| **Diogelu** | Dyletswydd statudol i gadw plant yn ddiogel a hyrwyddo'u lles. |